



TREFN GWYNO

Amcan

Amcan y drefn yma yw darparu proses sy'n delio yn brydlon â chwynion gan y staff. Fe'i lluniwyd i sicrhau cysondeb a thegwch i bob aelod o staff sydd yn anhapus ag agwedd benodol o'u gwaith. Mae'r drefn yn berthnasol i staff APT&Ch yn unig; sefydlwyd trefn genedlaethol ar gyfer staff Soulbury.

Egwyddorion Sylfaenol

- Dylid ymdrechu i ddelio â phob cwyn yn anffurfiol yn y lle cyntaf; fe ddylai'r berthynas rheolwr llinell / staff ganiatau i'r nifer helaethaf o gwynion / achosion o anffodlonrwydd gael eu datrys yn anffurfiol
- Sefydlwyd y drefn gwyno i ddelio ag achosion na ellir eu datrys yn anffurfiol.
- Cedwir copiau o unrhyw ohebiaeth a gyflwynir dan y drefn gwyno ar ffeil yr unigolyn, gan gynnwys tystiolaeth ysgrifenedig,
- Os na weithredir unrhyw gam yn y drefn o fewn y cyfnodau amser a bennir, mae hawl gan yr unigolyn i gyfeirio'r mater i uwch swyddog y rheolwr llinell. Pe bae'r ddwy ochr yn cytuno, gellir hebgor y cyfnodau amser.
- Cynghorir staff i drafod eu cwynion gyda chynrychiolydd undebol cyn dechrau ar y broses yn ffurfiol

Y Drefn Gwyno

Os oes gennych gwyn, unai fel unigolyn neu fel grwp, ynglyn â'ch gwaith neu fater arall sy'n ymwneud â'ch gwaith, mae gennych hawl i leisio eich cwyn. Sefydlwyd y drefn ganlynol i wrando ar gwynion :

1. Cysylltwch â'ch Rheolwr Llinell yn y lle cyntaf, gan mai ef/hi yw'r person gorau gan amlaf i ddelio â'ch cwynion. Gellwch drafod y mater eich hunan, gofyn i rywun arall drafod y mater ar eich rhan, neu ofyn i gyfaill neu gynrychiolydd undebol fod yn bresennol gyda chwi. Bydd y rheolwr llinell yn ymateb i'ch cwyn yn ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod.
2. Pe baech yn anffodlon ag ymateb eich rheolwr llinell, gellwch ofyn am ail gyfarfod gydag ef/hi. Cynhelir y cyfarfod hwn o fewn 3 diwrnod o dderbyn eich cais. Bydd y rheolwr llinell yn ymateb i'ch cwyn yn ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod.
3. Pe baech yn parhau yn anffodlon gyda'r ymateb yn dilyn yr ail gyfarfod, gellwch gyflwyno eich cwyn yn ysgrifenedig i Brif Weithredwr y Cwmni. Bydd ef neu swyddog arall a benodir ganddo yn eich cyfarfod i drafod eich cwyn, ac mae hawl ganddoch i gael cyfaill neu gynrychiolydd undebol fod yn bresennol. Cewch ymateb ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod.
4. Pe baech yn parhau yn anffodlon â'r ymateb, gellwch ysgrifennu at Gadeirydd yr Is-banel Personnel, a bydd ef/hi yn cyfeirio gwyn i sylw'r Is-banel. Bydd cyfle i chwi gyfarfod yr Is-banel i gyflwyn eich cwyn iddynt. Hwn yw'r cam olaf yn y drefn.